



Atodiad A

DOGFEN YMGYNGHORIAD I NEWID YSGOL STANWELL O STATWS SEFYDLEDIG I STATWS CYMUNEDOL O FIS MEDI 2024?



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille. Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.

CYNNWYS

Eglurhad o dermau yn y ddogfen hon	4
1. Cyflwyniad.....	1
1.1. Cefndir	1
1.2. Ymateb i'r cynnig	2
2. Y Cynnig.....	4
2.1. Summary	4
Derbyn i Ysgolion.....	5
Dalgylch	6
Polisiau cwricwlwm a rheoli disgyblion	7
3. Goblygiadau'r Cynnig.....	8
3.1. Gwybodaeth am Ysgolion	8
Y galw am leoedd mewn ysgolion.....	8
3.2. Canlyniadau addysgol.....	12
Adroddiad Estyn (Chwefror 2022).....	12
3.3. Effaith Arfaethedig ar Ddeilliannau Addysgol	13
Safonau a chynnydd	14
Llesiant ac agweddau at ddysgu.....	14
Profiadau dysgu ac addysgu.....	14
Gofal, cymorth ac arweiniad	15
Arwain a rheoli	15
3.4. Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).....	16
3.5. Effaith ar ysgolion eraill.....	17
3.6. Tir ac Adeiladau	17
3.7. Cyllid	17
3.8. Adnoddau Dynol	18
3.9. Trafnidiaeth a threfniadau teithio i ddysgwyr.....	18
4. Ystyriaethau Eraill	19
4.1. Manteision posibl y cynnig hwn o'i gymharu â'r status quo	19
4.2. Anfanteision posibl y cynnig hwn o'i gymharu â'r status quo	19
4.3. Risgiau posibl y cynnig hwn a mesurau i liniaru'r risgiau a nodwyd	20
4.4. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	20
4.5. Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.....	20
4.6. Cyfraniadau i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.....	22

4.7. Dewisiadau Amgen Eraill a Ystyriwyd.....	22
Opsiw 1: parhau i fod yn ysgol sefydledig.....	22
5. Y Broses Ymgynghori Statudol	23
5.1. Dyddiadau Allweddol	24
6. Cwestiynau Cyffredin	26
7. Cynnwys Rhanddeiliaid ac Ymateb i'r Ymgynghoriad	28
7.1 Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad.....	29
7.2 Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff - sut y gallwch ddarganfod mwy a rhoi eich barn ..	29
7.3. Sut Gallwch Ganfod Mwy a Rhannu eich Barn	30
Canfod mwy.....	30
Rhowch eich barn i ni.....	31
8. Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad.....	33
9. Ffurflen Monitro Cydraddoldeb	38

EGLURHAD O DERMAU YN Y DDOGFFEN HON

'ND' (Nifer Derbyn) – rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at y nifer derbyn cyhoeddedig. Y nifer derbyn yw nifer y llefydd sydd ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

'ADY' (Anghenion Dysgu Ychwanegol) - Mae gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

'Capasiti' - Capasiti ysgol yw cyfanswm nifer y lleoedd i ddisgyblion oed statudol sydd ar gael; nid yw'n cynnwys lleoedd meithrin.

'Dalgyllch' - Yr ardal ddaearyddol y mae'n rhaid byw ynddi er mwyn mynychu'r ysgol leol. Bydd plant dalgyllch bob amser yn cael blaenoriaeth dros geisiadau o'r tu allan i'r dalgyllch ond nid oes sicrwydd y bydd unrhyw blentyn yn cael ei dderbyn i'w ddewis ysgol.

'Cymuned' - Math o ysgol a ariennir gan y wladwriaeth lle mae'r awdurdod addysg lleol yn cyflogi staff yr ysgol, yn gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r ysgol, ac yn berchen ar ystâd yr ysgol.

'DC' (Deddf Cydraddoldeb) - Mae'r Ddeddf yn ymdrin â phob agwedd ar fywyd ysgol sy'n ymwneud â sut mae ysgol yn trin disgyblion a darpar ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, gweithwyr ac aelodau o'r gymuned. Rhaid i bopeth y mae ysgol yn ei wneud fod yn deg, heb wahaniaethu, a heb roi unigolion neu grwpiau o bobl dan anfantais. Yn benodol, ni ddylai ysgol wahaniaethu, aflonyddu nac erlid disgybl neu ddarpar ddisgybl o ran y canlynol: derbyn i'r ysgol, y ffordd y mae'n darparu addysg i ddisgyblion, sut mae'n rhoi mynediad i ddisgyblion at unrhyw fuddion, cyfleuster, neu wasanaeth, a pheidio â chynnwys disgybl neu ei roi dan unrhyw anfantais arall.

'AEG' (Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) - proses yw AEG sydd wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau gwarchoddedig.

'CS' (Cyfrwng Saesneg) – Ysgol lle mae'r addysgu a'r dysgu yn digwydd yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg.

'ALI' (Awdurdod Lleol) - Yn y ddogfen hon, Cyngor Bro Morgannwg yw'r Awdurdod Lleol oni nodir yn wahanol.

'NAG' (Nifer ar y Gofrestr) - Nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol. Nid yw hynny'n cynnwys lleoedd yn y dosbarth meithrin.

'CYBLD' (Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion) - Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae ysgolion yn casglu gwybodaeth wedi'i dilysu ac yn ei hanfon i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion wedi'u cofrestru ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref,

ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, cymhwysedd am brydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig a mamiaith.

'GY' (Gweithredu Ysgol) - Pan fydd athro dosbarth neu bwnc yn nodi bod gan ddisgybl ADY, bydd yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol.

'ICME' (anawsterau Iechyd Corfforol, Cymdeithasol, Meddyliol ac Emosiynol) - term eang a ddefnyddir i ddiffinio ystod o wahanol anghenion y gallai plant eu cael ar unrhyw adeg benodol. Mae'r term hwn wedi cael mwy o sylw wrth i athrawon a rhieni ddod yn ymwybodol o'r ymwybyddiaeth gynyddol o iechyd meddwl ymhlith plant a'r effaith y gall hyn ei chael ar eu lles a'u gallu i ddysgu.

'CAA' (Canolfan Adnoddau Arbenigol) - Cyfleuster yn yr ysgol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

'Â Datganiad' - Mae gan blentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol (AAA), a elwir hefyd yn ADY, os oes ganddo anawsterau dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig. Mae anhawster dysgu yn golygu bod y plentyn yn ei chael hi'n llawer anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed neu fod gan y plentyn anabledd sy'n gofyn am wahanol gyfleusterau addysgol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu'n gyffredinol.

'CC' (Cyfrwng Cymraeg) – Ysgol lle mae'r addysgu a'r dysgu yn digwydd yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg.

1. CYFLWYNIAD

1.1. CEFNDIR

Y cynnig a gyflwynwyd gan gorff llywodraethu Ysgol Stanwell yw newid categori'r ysgol o ysgol sefydledig i ysgol gymunedol a gynhelir o fis Medi 2024 ymlaen. Mae'r cynnig hwn wedi dod i'r amlwg oherwydd heriau ariannol a sefydliadol diweddar y mae Ysgol Stanwell wedi'u hwynebu, ac mae'n darparu mecanwaith i gefnogi uchelgeisiau Stanwell sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r penderfyniad i newid o ysgol sefydledig i ysgol gymunedol yn benderfyniad a wnaed gan gorff llywodraethu Ysgol Stanwell a byddai gyda chytundeb Cyngor Bro Morgannwg. Byddai'r newid i ysgol gymunedol a gynhelir yn gwella rheolaeth ariannol, yn sicrhau cydymffurfio ac yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor yn ogystal ag effeithio'n gadarnhaol ar reoli derbyniadau o fewn ei dalgylch presennol, yn ogystal â ledled Bro Morgannwg. Byddai'n caniatáu mynediad gwell at ffrydiau cyllid fel grantiau ysgolion bro a chyllid a106, er enghraifft, drwy Raglen Cynnal a Chadw Cyfalaf a Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor. Byddai'r ysgol yn elwa ar weithio'n agosach gydag ysgolion uwchradd eraill drwy'r Awdurdod Lleol gan sicrhau bod yr holl gyfleoedd ar gael ac yn cael eu trosoli'n briodol. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu ymhellach fanteision ac anfanteision newid statws.

Ysgolion Sefydledig

Mae Ysgol Stanwell yn ysgol sefydledig gydaddysgol gyda darpariaeth chweched dosbarth ar gyfer plant rhwng un ar ddeg a deunaw oed. Mae'r ysgol yn nhref Penarth, 5 milltir i'r de-orllewin o Gaerdydd. Mae 299 o leoedd ar gael ar hyn o bryd fesul grŵp blwyddyn o flynyddoedd 7 i 11 gyda 6ed dosbarth ar wahân fydd yn cynyddu i 324 o leoedd o fis Medi 2024. Mae 1953 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd gyda chyfanswm capasiti ar gyfer 1947 o ddisgyblion.

Mae Ysgol Sefydledig yn ysgol a ariennir gan yr Awdurdod Lleol lle mae gan y corff llywodraethu gyfrifoldebau ac atebolrwydd gwahanol wrth reoli'r ysgol nag sydd ganddynt mewn ysgolion cymunedol. Sefydlwyd ysgolion sefydledig o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i ddisodli ysgolion a gynhelir gan grant, a ariannwyd yn uniongyrchol gan y llywodraeth ganolog. Cafodd ysgolion a gynhelir gan grant a oedd wedi bod yn ysgolion gwirfoddol a reolir neu'n ysgolion a gynhelir yn y gymuned yr opsiwn i ddod yn ysgolion sefydledig.

Mae Ysgol Stanwell yn un o ddim ond deg ysgol sefydledig sydd ar ôl yng Nghymru. Mae ysgolion sefydledig yn "ysgolion a gynhelir," sy'n golygu eu bod yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Awdurdod Lleol, ac nid ydynt yn codi ffioedd ar fyfyrwyr. Fel gydag ysgolion gwirfoddol a reolir, telir yr holl gostau cyfalaf a refeniw drwy'r Awdurdod Lleol. Fel gydag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, mae'r corff llywodraethu yn cyflogi'r staff ac yn gyfrifol am dderbyniadau i'r ysgol, yn amodol ar y rheolau a osodir gan Lywodraeth Cymru.

Wrth ystyried cynigion ar gyfer y categori newid ysgol, mae corff llywodraethu Ysgol Stanwell wedi ystyried y ffactorau canlynol sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

- Mae pob categori o ysgol - cymuned, sefydledig, gwirfoddol a reolir neu wirfoddol a gynorthwyir o statws cyfartal.
- Bydd yr holl gynigion a ganiateir i newid categori ysgol yn cael eu hystyried yn ôl eu teilyngdod unigol.
- Mae gan newid categori y potensial i darfu ar redeg yr ysgol a/neu osod beichiau ychwanegol ar y corff llywodraethu a/neu ychwanegu cymhlethdod i ad-drefnu neu dderbyniadau ysgol. Felly, dylai fod rhagdybiaeth yn erbyn newidiadau lle na ellir nodi buddion a lle bo hynny'n bosibl, dylid rhoi trefniadau ar waith i liniaru unrhyw darfu lle bynnag y bo modd.
- A yw unrhyw weithred ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol yn caniatáu'r newid categori arfaethedig. Os oes unrhyw amheuaeth, neu os yw'n amlwg bod angen amrywiad yn y weithred ymddiriedolaeth, dylai'r cynigwyr gysylltu'n gynnar â'r Comisiwn Elusennau.

Oherwydd statws sefydledig yr ysgol hon, bydd y corff llywodraethu yn arwain y cynnig gyda chefnogaeth yr Awdurdod Lleol. Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am benderfynu ar y cynnig os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau statudol mewn ymateb i gyhoeddi hysbysiad statudol ond os ceir gwrthwynebiadau, byddai'r Awdurdod Lleol yn penderfynu ar y cynnig.

1.2. YMATEB I'R CYNNIG

Mae corff llywodraethu Ysgol Stanwell wedi ymrwymo i sicrhau bod yr ymgynghoriad hwn yn ystyrion, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau dan sylw. Gan y teimlir bod y cynnig er budd gorau'r ysgol, mae gan y corff llywodraethu ddyletswydd gofal i sicrhau bod y cynigion yn glir, yn dryloyw ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth y gellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg, rhieni, staff a disgyblion yn ogystal â'r gymuned ehangach a wasanaethir.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i bob ymgynghorai holi cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu hystyried gan y corff llywodraethu pan fyddwn yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Ceir mwy o wybodaeth am sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi eu cynllunio a sut y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad yn [Adran 7 "Cynnwys rhanddeiliaid ac ymateb i'r ymgynghoriad"](#). Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys doleri arolwg ar-lein a chyfeiriad post am ddim os hoffech gyflwyno ymateb drwy'r post. Gellir dod o hyd i'r ffurflen ymateb o dan [Adran 8](#).

O dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'n hanfodol bod unrhyw adborth yn cael ei dderbyn yn ysgrifenedig erbyn 23 Hydref 2023 er mwyn cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu cydlynu gan Gyngor Bro Morgannwg ac yna'n cael eu cyflwyno i'r corff llywodraethu i'w hystyried. Gellir cwblhau ymatebion ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein neu fel arall trwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a dychwelyd i'r cyfeiriad a ddarparwyd.

2. Y CYNNIG

2.1. SUMMARY

Mae'r cynnig hwn yn gofyn am newid i gategoreiddio Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned o fis Medi 2024.

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 1.13 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Pam ydyn ni'n Cynnig y Newidiadau?

Rydym yn cynnig y newid gan fod y corff llywodraethu yn credu ei fod er budd gorau'r ysgol. Byddai newid i ysgol a gynhelir yn y gymuned yn helpu i hwyluso gwell rheolaeth ariannol a rhoi sicrwydd a chynaliadwyedd i'r ysgol o lwyddiannau'r ysgol fel yr adlewyrchir yn adroddiad diweddaraf Estyn. Bydd yn hwyluso datblygu mwy o weithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol, Llywodraeth Cymru a chydag ysgolion ledled Bro Morgannwg gyfan. Byddai'n caniatáu mynediad gwell at ffrydiau cyllid fel grantiau ysgolion bro a chyllid a106, er enghraifft, drwy Raglenni Cynnal Cyfalaf a Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor a thrwy sicrhau cydymffurfio â rheoliadau Cyllid Teg.

Bydd y cynnig hwn hefyd yn annog mwy o weithio mewn partneriaeth drwy rannu arfer gorau a gwasanaethau gydag ysgolion eraill ar draws Bro Morgannwg. Rhagwelir y bydd y ffactorau hyn yn rhoi gwelliant cyffredinol i'r ysgol o ran cynnal ei deilliannau, yn enwedig wrth ystyried pwysau a rhwymedigaethau ariannol presennol ac yn y dyfodol.

Buddion Ariannol

Ariennir ysgol Stanwell fel ysgol a gynhelir drwy Fformiwla ariannu Ysgolion Prif Ffrwd Cynghorau Bro Morgannwg. Y gyllideb flynyddol ar gyfer 2023/24 yw £9.557M gan gynnwys y grant ôl-16 dirprwyedig. Ym mlwyddyn ariannol 2022/23, roedd yr ysgol mewn sefyllfa o ddiffyg ariannol o £0.588M ac maent wedi paratoi cynllun adfer i ddileu'r diffyg hwn dros gyfnod o dair blynedd.

Ar hyn o bryd mae cyllideb yr ysgol yn cael ei rheoli gan y corff llywodraethu heb oruchwyliaeth gan Gyngor Bro Morgannwg. Pe bai'r cynnig hwn yn dwyn ffrwyth, byddai Ysgol Stanwell yn elwa ar gymorth ariannol arbenigol ychwanegol ar reoli'r gyllideb gan Gyngor Bro Morgannwg. Byddai'r ysgol hefyd yn elwa ar gymorth gyda llif arian, caffael a mynediad at gronfeydd Adran 106 ar gyfer prosiectau cyfalaf.

Fel ysgol gymunedol, byddai cyfrifoldeb am adeiladau Stanwell yn trosglwyddo i'r Cyngor ac o ganlyniad, byddai gwaith cyfalaf a nodwyd drwy arolygon cyflwr yn cael ei flaenoriaethu a'i gynnal o raglen cyllid cyfalaf ac adnewyddu asedau'r Cyngor

Fel ysgol sefydledig, nid yw Stanwell wedi bod yn destun cydgytundeb Bro Morgannwg ar gyfer gwerthuso swyddi. Os byddwn yn dod yn ysgol gymunedol, yna byddai Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi'r cymorth angenrheidiol i Ysgol Stanwell fynd i'r afael ag unrhyw faterion cyflogaeth. Mae Stanwell wedi cofrestru yn ddiweddar i wasanaethau cyflogres a

chymorth ariannol Bro Morgannwg. Mae'r newid hwn o ganlyniad i Stanwell yn mabwysiadu'r cytundeb lefel gwasanaeth a gynigir, yn hytrach nag o ganlyniad i unrhyw newid arfaethedig mewn categorïddio.

DERBYN I YSGOLION

Ar hyn o bryd mae Ysgol Stanwell yn ysgol statws sefydledig ac fe'i rheolir gan y corff llywodraethu sy'n golygu:

- Ar hyn o bryd mae'r prosesau derbyn i ysgolion yn cael eu rheoli gan ysgol Stanwell oherwydd ei statws sefydledig. Ar hyn o bryd mae'n gweithredu ar drefniant ysgol fwydo ar gyfer mynediad i'r ysgol. Mae'n derbyn ceisiadau sy'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael o'r ysgolion cynradd bwydo yn ystod cam trosglwyddo blwyddyn 6. Mae hyn yn golygu y gall disgyblion sy'n byw y tu allan i Fro Morgannwg gael lle mewn ysgol gynradd fwydo a chael blaenoriaeth ar gyfer lleoedd ysgol dros ddisgyblion sy'n byw yn y gymuned leol sydd heb gael lle yn un o ysgolion bwydo Stanwell. O dan bolisi'r cyngor, byddai preswyllo o fewn dalgylch ysgol yn sicrhau bod plant lleol yn cael blaenoriaeth ar gyfer mynediad i'w hysgol leol. Yn y rhan fwyaf o achosion o dan drefniadau presennol ysgolion bwydo, mae'r rhan fwyaf o blant mewn ysgolion bwydo hefyd yn byw yn nalgylch ysgol Stanwell felly ni fyddai newid sylweddol i dderbyniadau i'r ysgol, fodd bynnag, byddai'n darparu dull gwell o ymdrin â derbyniadau i'r disgyblion hynny sy'n byw yn y gymuned leol.
- Yr ysgolion bwydo ar hyn o bryd yw Ysgol Gynradd Albert, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Gynradd Sili ac Ysgol Gynradd Victoria. Byddai'r newid i statws cymunedol yn golygu y byddai derbyniadau disgyblion i Stanwell yn amodol ar bolisi derbyn Bro Morgannwg a byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau. Mae Bro Morgannwg wedi ymrwmo i sicrhau y gall holl ddisgyblion Bro Morgannwg gael mynediad i le mewn ysgol mor agos at eu cyfeiriad cartref â phosibl. Byddai'r newid hwn yn hwyluso hyn.
- Mae polisi derbyn i ysgolion y cyngor yn destun adolygiad blynyddol ac ymgynghori ac felly nid yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.
- Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei wireddu, o fis Medi 2024, byddai trefniadau derbyn yr awdurdod lleol yn berthnasol i'r ysgol o ganlyniad i newid i statws cymunedol lle mae preswyllo yn y dalgylch yn flaenoriaeth uchel ar gyfer cael eich derbyn i'r ysgol.
- Fel rhan o'r cynnig hwn, mae'r Cyngor yn ymrwmo i sefydlu trefniadau pontio ar gyfer y plant hynny sy'n bresennol yn un o ysgolion cynradd bwydo dynodedig Stanwell cyn newid statws. Yr ysgolion bwydo dynodedig yw Albert, Evenlode, Silly a Victoria. Byddai trefniadau pontio yn rhan o'r polisi derbyn a byddent yn amodol ar gymeradwyaeth Cabinet y Cyngor.
- Felly, bydd y Cyngor yn cadw'r cyswllt â'r ysgol gynradd fwydo ar gyfer y plant hynny sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd

2023/2024. Byddai pob plentyn o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6 ysgol fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024 yn cadw eu statws bwydo.

- Byddai'r trefniadau pontio yn dod i ben ar gyfer proses drosglwyddo blwyddyn 6 i addysg uwchradd ym mis Medi 2030 pan fydd y plentyn olaf o dan drefniadau pontio yn gadael ei ysgol gynradd fwydo.
- Yn ystod y flwyddyn bydd ceisiadau trosglwyddo i Ysgol Stanwell o fis Medi 2024 yn cael eu hystyried yn unol â threfniadau derbyn yr awdurdod lleol lle mae preswylfa o fewn y dalgylch yn flaenoriaeth uchel ar gyfer derbyn i'r ysgol.

Byddai newid categori yn golygu y byddai pob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg, ac eithrio Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, yn ysgolion a gynhelir yn y gymuned. Fodd bynnag, mae Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn eisoes wedi dewis bod yn rhan o'r trefniadau derbyn cydlynol sydd ar waith ym Mro Morgannwg. Byddai cynnwys Stanwell yn creu dull cyson o ymdrin â derbyniadau ysgolion ar draws holl ysgolion uwchradd y Fro, fyddai'n sicrhau system deg a chyfartal i blant wrth drosglwyddo i addysg uwchradd, gan roi blaenoriaeth i'r rheini o'r gymuned leol. I rieni, byddai hyn yn golygu y byddai'r Cyngor yn darparu cynnig o un lle i blant wrth drosglwyddo i addysg uwchradd ac na fyddai rhieni'n gallu cadw mwy nag un lle ysgol i'w plentyn. Mae systemau derbyn y Cyngor yn effeithiol ac yn dryloyw, a dim ond un system y byddai angen i rieni ei defnyddio a chael un pwynt cyswllt. Mae'r cynnig o nifer o leoedd ysgol (er enghraifft rhieni sy'n gwneud cais am le i'w plentyn yn Stanwell a Sant Cyres) yn aml yn atal plant eraill rhag cael cynnig lle tan yn hwyr a gall fod yn rhwystr i ysgolion o ran gofynion rhagamcanu cywir fel staffio a chynllunio ariannol. O ganlyniad, gall fod ansicrwydd ynghylch pa ddisgyblion ysgol fydd yn gallu mynychu mor hwyr â mis Medi. Byddai newid y categori yn rhoi mwy o sicrwydd i bob ysgol yn gynnwys o ran nifer y disgyblion sy'n mynd i flwyddyn 7. Mae hyn yn arbennig o bwysig at ddibenion amserlennu, cymorth pontio, rheoli dosbarthiadau a chyllideb ysgolion.

DALGYLCH

Mae'r ddelwedd isod yn rhoi trosolwg o'r dalgylch ar gyfer Ysgol Stanwell. Mae'r ysgol yn nhref Penarth, 5 milltir i'r de-orllewin o Gaerdydd.

Mae'r cyngor yn cynnal adolygiadau rheolaidd o dalgylchoedd ysgolion. Byddai proffil dalgylch ysgolion y cyngor yn cael ei ddiweddarau i gynnwys ysgol Stanwell, a byddai'r polisi gordanysgrifio yn berthnasol lle mae preswylfa o fewn dalgylch ysgol yn flaenoriaeth uchel ar gyfer derbyn i ysgol uwchradd, gan dynnu sylw at ein hethos o 'ysgolion lleol i blant lleol'.

[Ffigur 1: Dalgylch Ysgol Stanwell](#)



Ni chynigir y bydd unrhyw newidiadau i dalgylch Ysgol Stanwell o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai unrhyw newidiadau i dalgylchoedd yn y dyfodol yn cael eu hamlinellu mewn ymgynghoriad ar drefniant derbyniadau blynyddol gan Gyngor Bro Morgannwg yn y dyfodol.

POLISI'AU CWRICWLWM A RHEOLI DISGYBLION

- Ni fydd y cynnig arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar y cwricwlwm. Bydd Ysgol Stanwell yn parhau gyda gwaith i weithredu ac ymgorffori'r Cwricwlwm i Gymru fel y gwêl yn dda. Mabwysiadwyd y cwricwlwm hwn gan yr ysgol yn ystod tymor yr haf 2022 a dechreuodd y gwaith gweithredu ym mis Medi 2022.
- Bydd Ysgol Stanwell yn parhau i gael ei chefnogi gan Gonsortiw Canolbarth y De mewn perthynas â datblygu'r cwricwlwm.
- Byddai'r ysgol yn elwa ar weithio'n agosach gydag ysgolion uwchradd eraill a rhannu data gyda'r awdurdod lleol, a thrwy hynny sicrhau bod y cyfleoedd ychwanegol sydd ar gael i'r ysgol yn cael eu cynyddu.
- Byddai Stanwell yn elwa ar weithio'n llawn o fewn Protocol Symudiadau wedi'u Rheoli yr ALI. Mae'r ysgol eisoes yn cyfeirio at y Panel Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol (PICEM) a'r Tîm Cynhwysiant am gymorth ynghylch presenoldeb a gwaharddiadau, a byddai mabwysiadu'r protocol felly'n cefnogi

dysgwyr yn well i gael mynediad i'r ystod lawn o fecanweithiau cymorth sydd ar gael, fel yr amlinellir yng Nghontinwwm PICEM.

3. GOBLYGIADAU'R CYNNIG

3.1. GWYBODAETH AM YSGOLION

Mae'r tabl isod yn amlinellu gwybodaeth capasiti bresennol Ysgol Stanwell:

Tabl 1: Gwybodaeth Ysgol Stanwell

Ysgol	Math o Ysgol	Categori iaith	Nifer derbyn	Capasiti ysgol	Nifer ar y gofrestr	Ystod oedran
Ysgol Stanwell	Ysgol Sefydledig	Cyfrwng Saesneg	299	1947	1955	11-18

Y GALW AM LEOEDD MEWN YSGOLION

Mae'r tabl canlynol yn dangos data niferoedd Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar y gofrestr ym mis Ionawr ym mhob blwyddyn, niferoedd presennol ar y gofrestr a rhagamcan o'r niferoedd ar y gofrestr ar gyfer Ysgol Stanwell.

Tabl 2: Rhagamcan o'r Galw gan Ddisgyblion Ysgol Stanwell

Ysgol	Capasiti Presennol yr Ysgol	CYBLD 2019	CYBLD 2020	CYBLD 2021	CYBLD 2022	Nifer ar y Gofrestr Presennol 2023	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28
Ysgol Stanwell	1947	1993	2001	1998	1979	1953	1951	1969	1962	1955	1964

Mae'r tablau isod yn nodi'r niferoedd presennol ar y gofrestr (NAG) ar gyfer pob ysgol a gynhelir ym Mhenarth, gan gynnwys Ysgol Gyfun Sant Cyres sy'n rhannu'r un dalgyrch â Stanwell.

Tabl 3: Gwybodaeth am Ysgolion Cyfagos ac Ysgolion Cynradd sy'n Bwydo

Ysgol	Nifer Derbyn	Capasiti Ysgol	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6	Cyfanswm NAG	Cyfanswm Capasiti Dros Ben	Dros y Capasiti
Ysgol Gynradd Albert (cynradd bwydo)	55	385	53	54	55	52	57	55	57	383	2	0
Ysgol Gynradd Cogan	30	210	30	27	30	28	30	30	27	202	8	0
Ysgol Gynradd Evenlode (cynradd bwydo)	60	420	60	61	60	61	59	61	59	421	0	1
Ysgol Gynradd Fairfield	45	315	39	30	43	42	45	45	45	289	26	0
Ysgol Gynradd Sili (cynradd bwydo)	50	350	52	51	52	50	51	50	51	357	0	7
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff	30	210	25	27	30	30	30	29	31	202	8	0
Ysgol Gynradd Victoria (cynradd bwydo)	60	420	60	60	59	60	60	59	59	417	3	0
Ysgol Pen y Garth	60	420	39	37	43	41	42	32	43	277	143	0
Cyfanswm	390	2730	358	347	372	364	374	361	372	2548	182	8
Lleoedd ar gael mewn grwpiau blwyddyn	-	-	32	43	18	26	16	29	28	-	-	

Ysgol	Nifer Derbyn	Capasiti	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13	Cyfanswm NAG	Capasiti dros ben
Sant Cyres	210	1246	210	208	207	204	206	94	73	1202	44

Mae'r tabl canlynol yn dangos data blaenorol Nifer ar y Gofrestr o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) mis Ionawr bob blwyddyn ar gyfer ysgolion cyfagos Penarth ac ysgolion cynradd bwydo Stanwell

Tabl 4: Data Nifer ar y Gofrestr blaenorol Ysgolion Cyfagos ac Ysgolion Cynradd Bwydo Stanwell

Ysgol	Capasiti Presennol yr Ysgol	Ionawr, 2019	Ionawr 2020	Ionawr 2021	Ionawr 2022
Sant Cyres	1246	1157	1156	1215	1204
Albert (cynradd bwydo)	385	384	382	386	373
Cogan	210	205	206	209	206
Evenlode (cynradd bwydo)	420	447	414	421	417
Fairfield	315	302	301	292	281
Sant Joseff	210	196	196	199	201
Sili (cynradd bwydo)	350	349	343	349	352
Victoria (cynradd bwydo)	420	441	444	447	418
Ysgol Pen y Garth	420	337	334	302	281

Mae'r tabl canlynol yn dangos data amcanestyniadau Niferoedd ar y Gofrestr ar gyfer ysgolion cyfagos ac ysgolion cynradd bwydo Stanwell.

Tabl 5: Data amcanestyniadau Niferoedd ar y Gofrestr Ysgolion Cyfagos ac Ysgolion Cynradd Bwydo Stanwell

Ysgol	Capasiti Presennol yr Ysgol	Rhagamcan 2023/2024	Rhagamcan 2024/2025	Rhagamcan 2025/2026	Rhagamcan 2026/2027	Rhagamcan 2027/2028
Ysgol Gyfun	1246	1227	1255	1263	1268	1271

Ysgol	Capasiti Presennol yr Ysgol	Rhagamcan 2023/2024	Rhagamcan 2024/2025	Rhagamcan 2025/2026	Rhagamcan 2026/2027	Rhagamcan 2027/2028
Sant Cyres						
Ysgol Gynradd Albert (cynradd bwydo)	385	378	376	374	377	376
Ysgol Gynradd Cogan	210	204	203	204	203	204
Ysgol Gynradd Evenlode (cynradd bwydo)	420	418	417	416	418	418
Ysgol Gynradd Fairfield	315	288	282	278	275	271
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff	210	201	200	198	197	196
Ysgol Gynradd Sili (cynradd bwydo)	350	358	360	361	363	363
Ysgol Gynradd	420	418	418	419	419	418

Ysgol	Capasiti Presennol yr Ysgol	Rhagamcan 2023/2024	Rhagamcan 2024/2025	Rhagamcan 2025/2026	Rhagamcan 2026/2027	Rhagamcan 2027/2028
Victoria (cynradd bwydo)						
Ysgol Pen y Garth	420	272	278	274	270	268

3.2. CANLYNIADAU ADDYSGOL

Byddai newid statws a gynhelir gan y Gymuned yn cynorthwyo Stanwell i weithio'n agosach gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, Llywodraeth Cymru ac ysgolion er mwyn gwella canlyniadau addysgol ymhellach. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ei ysgolion i sicrhau bod safonau'n gadarn, bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel, a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Mae Stanwell a'r Cyngor yn gweithio gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi gwelliant mewn ysgolion. Byddai statws a gynhelir gan y gymuned yn cryfhau'r berthynas hon.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y Goron, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn gorff annibynnol ond mae'n derbyn ei arian gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant Cymru.

Sefydlwyd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) ym mis Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol ym Mro Morgannwg.

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd addysg a gynigir a chodi safonau a gyflawnir gan eu disgyblion.

[ADRODDIAD ESTYN \(CHWEFROR 2022\)](#)

Cafodd Ysgol Stanwell ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2022. Mae'r adroddiad yn crynhoi:

Mae Ysgol Stanwell yn cynnig amgylchedd dysgu ysgogol i ddisgyblion ac ystod eang o gyfleoedd iddynt ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad clir i staff ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer gwelliant parhaus. Maent wedi meithrin ethos lle mae staff yn hyderus i fod yn arloesol ac arbrofi gyda'u dulliau addysgu.

Mae uwch arweinwyr yn deall pwysigrwydd datblygu methodolegau addysgu sy'n benodol i'r pwnc ac ymddiried yn arweinwyr canol i hyrwyddo strategaethau sy'n ennyn chwilfrydedd disgyblion ac yn denu eu diddordeb. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ansawdd yr addysgu yn uchel. Mae arweinwyr yn rhoi ffocws cynyddol ar les disgyblion ac mae staff yn dangos lefelau uchel o barch a gofal i ddisgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain allweddol a lleisio eu barn.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac mae llawer ohonynt yn uchelgeisiol. Maent yn rhugl ac mae ganddynt sgiliau darllen da, er nad ydynt bob amser yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dealltwriaeth a'u sgiliau pwnc, er nad yw athrawon mewn rhai achosion yn sicrhau bod disgyblion yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r dulliau y maent yn eu defnyddio i ddatrys problemau penodol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o ganlyniad i gefnogaeth unigol sydd wedi'i hystyried yn dda.

Mae staff yn sensitif i anghenion disgyblion ac yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn gyson yn seiliedig ar uchelgeisiau, cynwysoldeb a pharch. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn cael ei hystyried yn dda ac yn gynhwysfawr, er bod disgyblion yn teimlo nad ydynt yn cael digon o amser yn ystod y diwrnod ysgol i ymlacio, cymdeithasu neu ddilyn eu diddordebau eu hunain. Ar y cyfan, mae ymddygiad disgyblion yn dda ac mewn llawer o achosion mae'n rhagorol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgyblion yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn cefnogi dysgu ei gilydd. Maen nhw'n gwranddo'n astud ar farn eu cyfoedion ac yn ymateb yn aeddfed iddyn nhw.

ARGYMHELLION

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 Gwella defnydd athrawon o gwestiynu i ddatblygu gallu disgyblion i feddwl yn annibynnol
- A2 Sicrhau bod disgyblion yn cael digon o amser yn ystod y diwrnod ysgol i ymlacio, cymdeithasu neu ddilyn eu diddordebau eu hunain
- A3 Cynyddu'r ystod o gyfleoedd sydd gan ddisgyblion i ymarfer eu Cymraeg

Gellir dod o hyd i adroddiad arolwg Ysgol Stanwell yn:

<https://www.estyn.llyw.cymru;>

3.3. EFFAITH ARFAETHEDIG AR DDEILLIANNAU ADDYSGOL

SAFONAU A CHYNNYDD

Ni fyddai'r cynnig i newid categori ysgol yn effeithio ar safonau a chynnydd disgyblion a staff ysgol Stanwell. Byddai uwch arweinyddiaeth yr ysgol yn cynnal yr un rheolaeth o ddydd i ddydd heb unrhyw newidiadau ar wahân i Fro Morgannwg yn rheoli proses dderbyniadau'r ysgol.

Mae'r ysgol eisoes yn gweithio'n agosach gyda Chyngor Bro Morgannwg i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyd yma, a byddai'r newid mewn statws yn adlewyrchu ac yn cefnogi'r llwybr hwn yn y tymor hwy ac yn sicrhau cynaliadwyedd tymor hwy yr ysgol.

LLESIANT AC AGWEDDAU AT DDYSGU

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn ymfalchïo yn eu gwaith.
- Mae llawer o ddisgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd yn y dosbarth. Maent yn cydweithredu â'i gilydd yn aeddfed mewn parau a grwpiau bach.
- Mae gan lawer o ddisgyblion ddyheadau uchel iawn, yn dangos chwilfrydedd a diddordeb yn eu gwaith.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer yn teimlo bod unrhyw achosion o fwlio neu aflonyddu yn cael eu trin yn briodol.
- Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r ystod eang o weithgareddau cyfoethogi sydd ar gael iddynt ac mae'r gweithgareddau hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu lles.
- Mae disgyblion yn y 'clwb niwroamrywiaeth' yn yr ysgol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gwerthfawrogi'r cyfle y mae'r clwb yn ei roi iddynt i ddathlu amrywiaeth o fewn yr ysgol ac i ddatblygu cyfeillgarwch a chyfathrebu â chyfoedion o'r un anian.

O ganlyniad i'r cynnig, byddai'r ysgol yn parhau i gael ei rheoli gan yr Uwch dîm arweinyddiaeth sydd ar waith heb unrhyw effaith ar ddisgyblion na staff. Byddai arweinwyr ac athrawon yn parhau i sbarduno lles ac agweddau cadarnhaol.

PROFIADAU DYSGU AC ADDYSGU

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth pwnc gref ac maent yn fodolau rôl da i'w disgyblion. Maent yn meithrin perthynas waith gadarnhaol ac yn rhoi esboniadau clir a defnyddiol sy'n cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda.
- Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o derminoleg pwnc ac yn darparu modelau iaith cryf i helpu disgyblion i wella eu hymatebion llafar ac ysgrifenedig.
- Mae llawer o athrawon yn deall sut i ddewis a defnyddio'r strategaethau addysgu sy'n benodol i bwnc mwyaf priodol i gefnogi dysgu.

- Yn gyffredinol, mae athrawon yn monitro dysgu disgyblion mewn gwersi'n briodol ac yn darparu adborth llafar defnyddiol i gefnogi eu cynnydd.
- Mae gan yr ysgol system gynhwysfawr i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr ac athrawon yn defnyddio hyn yn effeithiol i nodi disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni ac ymyrryd yn llwyddiannus.

Ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar y profiadau addysgu a dysgu. Yr unig newid fyddai i statws yr ysgol. Bydd arweinwyr ac athrawon yn parhau i sbarduno'r profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol.

GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae staff yn sensitif i anghenion disgyblion ac yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn gyson yn seiliedig ar uchelgeisiau, cynwysoldeb a pharch.
- Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr ac ystyriol i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u lles, eu hiechyd meddwl a'u hanghenion emosiynol eu hunain.
- Yn ogystal, mae ystod eang o gyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i archwilio themâu fel hunaniaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- At ei gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad personol disgyblion ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhyngweithio â'u cyfoedion gyda gofal a pharch.
- Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am agweddau pwysig ar fywyd ysgol.
- Mae arweinwyr wedi cryfhau trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel, ac mae staff ar bob lefel yn gweithio'n ofalus i hyrwyddo diwylliant diogelu cadarnhaol.

Ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar y profiadau addysgu a dysgu. Yr unig newid fyddai i statws yr ysgol. Bydd arweinwyr ac athrawon yn parhau i sbarduno'r gofal, y gefnogaeth a'r arweiniad cadarnhaol i ddisgyblion.

ARWAIN A RHEOLI

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar feithrin lles disgyblion a chefnogi eu dyheadau.
- Mae'r uwch arweinwyr wedi cyflwyno dulliau buddiol o weithio ar y cyd a dysgu ar y cyd, sy'n meithrin ymdeimlad o gydlyniant ymhlith staff.
- Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo ethos cynhwysol yn gynyddol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch lle mae pob disgybl yn 'dysgu rhagori' mewn ystod eang o gyd-destunau.
- Mae'r arweinwyr yn dechrau rhannu'r weledigaeth hon yn ehangach i greu cyfleoedd buddiol i rieni a disgyblion drafod blaenoriaethau'r ysgol yn y dyfodol.

- Mae'r arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth gynyddol i hyrwyddo diwylliant o ddiogelu lle mae lles disgyblion yn ganolog.
- Mae'r pennaeth wedi ailstrwythuro'r rolau a'r cyfrifoldebau o fewn y tîm arweinyddiaeth i gefnogi'r newid hwn.
- Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda.
- Mae gan uwch arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob agwedd ar waith yr ysgol ac maent yn hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus.
- Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'r holl staff. Maent yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu eu hymarfer a chyfrannu at fentrau ysgol gyfan.

Ni fyddai unrhyw effaith uniongyrchol ar arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol o ganlyniad i'r cynnig hwn. Bydd gweithio'n agosach gyda'r ALI hefyd yn cynnig mwy o fuddion o ran cydymffurfio, arbenigeddau rheoli prosiectau a rheoli contractau.

3.4. DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Nid oes gan yr ysgol ganolfan adnoddau arbenigol cysylltiedig (CAA). Mae'n rhoi cymorth arbenigol i blant ag anghenion wedi eu nodi mewn lleoliad cynhwysol yn yr ysgol. Mae Cydlynedd ADY yr ysgol yn ysgrifennu ac yn adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) ar gyfer disgyblion yn yr ysgol, gan amlinellu eu rhwystrau i ddysgu, a sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol gefnogol (ALPS) yn yr ysgol. Mae yna gyfrifoldeb ar ysgolion i weithio gyda'r AL i gefnogi ADY a byddai hyn yn cael ei gefnogi'n well fel ysgol gymunedol, yn enwedig gyda lefelau uwch a chymhlethdod anghenion ADY yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am anghenion disgyblion presennol.

Tabl 4: Gwybodaeth am ADY ar gyfer Ysgol Stanwell

Ionawr 2023		Ysgol Stanwell	ALI	Cymru
Canran y disgyblion ADY	Gweithredu gan yr Ysgol	Ddim ar gael	Ddim ar gael	13.4% (Disgyblion ag ADY)
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1%	3%	
	Â datganiad	0.20%	0.45	
	CDU	3%	3.29%	16.60%

Mae'r ysgol yn cyflwyno cwricwlwm mwy pwrpasol wedi'i dargedu sy'n ymateb i alluoedd plant unigol ac sy'n sicrhau bod yr holl blant sy'n gofyn am gymorth ychwanegol yn cael eu hintegreiddio ar draws pob maes o'r cwricwlwm.

3.5. EFFAITH AR YSGOLION ERAILL

Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol am nad oes unrhyw newid yn cael ei gynnegi i'r dalgylch presennol fel rhan o'r cynnig hwn. Mae ysgol Sant Cyres, sy'n rhannu dalgylch gyda Stanwell, hefyd yn cael ei gordanysgrifio'n gyson ar gyfer proses drosglwyddo blwyddyn 7.

3.6. TIR AC ADEILADAU

Trwy ei weithredu, mae rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn nodi manylion llawn yn ymwneud â throsglwyddo tir. Bydd unrhyw drosglwyddiadau yn digwydd ar y dyddiad gweithredu. Pan fo ysgol sefydledig, wirfoddol a gynorthwyr neu wirfoddol a reolir heb gymeriad crefyddol yn dod yn ysgol gymunedol, bydd unrhyw dir a ariennir yn gyhoeddus yn trosglwyddo'n awtomatig i'r awdurdod lleol.

Diffinnir tir a ariennir yn gyhoeddus yn Atodlen 4 i Ddeddf 2013 ac mae'n cynnwys tir a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu drwy grant cyfalaf (o fewn ystyr Pennod 6 o Ran 3 i Ddeddf Addysg 1996). Rhaid trosglwyddo unrhyw dir arall a ddelir gan ymddiriedolwyr, neu'r corff llywodraethu i'r awdurdod lleol drwy gytundeb trosglwyddo sydd i'w lunio gan y partion perthnasol. Os nad yw'r partion yn gallu dod i gytundeb mewn perthynas â throsglwyddo, gall y naill barti neu'r llall wneud cais i Weinidogion Cymru allgáu trosglwyddo unrhyw lain o dir. Yna rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylid cyfarwyddo ei allgáu.

Nid oes unrhyw ymddiriedolwyr ar waith yn Ysgol Stanwell ac felly nid oes angen ymgynghori yn yr achos hwn. Byddai'r tir yn trosglwyddo'n awtomatig i'r awdurdod lleol wrth newid statws.

Gan fod yr ysgol yn ysgol sefydledig ar hyn o bryd, cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw cynnal arolygon cyflwr ac addasrwydd i sefydlu ei chyflwr. Fodd bynnag, pe bai'r ysgol yn newid i fod yn ysgol gymunedol, byddai Bro Morgannwg yn cynnal arolwg cyflwr ac addasrwydd llawn. Mae'r arolygon cyflwr ac addasrwydd yn llywio penderfyniadau adnewyddu asedau a gwariant cyfalaf ar gyfer holl asedau'r Cyngor ac mae'n un o brif ysgogwyr y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

3.7. CYLLID

Cyllid cyfalaf

Fel ysgol gymunedol, byddai adeilad ysgol Stanwell yn trosglwyddo i'r Cyngor. O ganlyniad, byddai gwaith cyfalaf mawr sy'n ofynnol fel y nodwyd drwy arolygon cyflwr ac addasrwydd yn cael eu blaenoriaethu a'u cynnal o gyllid cyfalaf y Cyngor a chronfeydd adnewyddu asedau yn hytrach na chyllideb refeniw a ddirprwywyd Stanwell

Refeniw

Fel ysgol gymunedol sy'n prynu'r cyllid CLG, byddai Stanwell yn derbyn cymorth arbenigol gyda phennu'r gyllideb a phrosesau monitro gan dîm Cyllid Ysgolion y cyngor. Byddai hyn o ganlyniad i ysgol Stanwell yn ymuno â'r CLG Cyllid Ysgol, yn hytrach nag o ganlyniad i symud o ysgol sefydledig i ysgol gymunedol. Ni fyddai unrhyw gyllid ychwanegol o ganlyniad i symud o statws ysgol sefydledig i statws ysgol gymunedol gan fod Stanwell eisoes yn cael ei hariannu gan y fformiwla ariannu ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, byddai'r newid hwn yn gwneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer arbedion ac arfer gorau a rennir ar draws pob ysgol a byddai staff a disgyblion Stanwell yn cael eu hamddiffyn trwy fod yn rhan o sefydliad llawer mwy.

3.8. ADNODDAU DYNOL

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi llywodraethwyr i sicrhau bod ymgynghoriad llawn gyda staff ac Undebau Llafur cydnabyddedig yn digwydd drwy gydol y broses hon o ran unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn. Bydd Llywodraethwyr a'r Awdurdod Lleol yn sicrhau cydymffurfio llawn â'r holl ofynion TUPE sy'n digwydd o ganlyniad i'r newid statws. Bydd swyddogion yr Awdurdod Lleol mewn cysylltiad â darparwyr adnoddau dynol yr ysgol, yn anelu at weithio'n agos gyda'r ysgol a'r llywodraethwyr i gefnogi staff fel y bo'n briodol ac i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chlir yn digwydd bob amser.

3.9. TRAFNIDIAETH A THREFNIADAU TEITHIO I DDYSGWYR

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Bro Morgannwg i ddarparu trafndiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. "Diffinnir hyn fel mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Ysgolion Uwchradd. Mesurir pellteroedd drwy'r llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."

Byddai unrhyw ddisgybl sy'n mynychu Stanwell ar y dyddiad trosglwyddo i'r statws newydd sy'n byw mwy na 3 milltir o safle'r ysgol yn parhau i fod â hawl i drafndiaeth ysgol am ddim yn amodol ar unrhyw newidiadau i'r polisi sydd ar waith ar gyfer pob ysgol.

4. YSTYRIAETHAU ERAILL

4.1. MANTEISION POSIBL Y CYNNIG HWN O'I GYM HARU Â'R STATUS QUO

Byddai newid statws Stanwell i ysgol a Gynhelir gan y Gymuned yn;

- Galluogi'r ysgol i wella rheolaeth holistaidd yr ysgol ymhellach, trwy gymorth arbenigol ychwanegol gan Gyngor Bro Morgannwg.
- Helpu i hwyluso rheolaeth ariannol well a chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddio a pholisi.
- Cefnogi cynaliadwyedd yr ysgol a chefnogi staff a llywodraethwyr i barhau â llwyddiannau dysgu ac addysgu'r ysgol fel yr adlewyrchir yn adroddiad diweddaraf Estyn.
- Hwyluso datblygu mwy o weithio mewn partneriaeth gyda Bro Morgannwg gyfan, yn ogystal â'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru.
- Caniatáu mynediad gwell at ffrydiau cyllid fel grantiau ysgolion bro, cyllid a106 ac ati, drwy Raglen Gyfalaf y Cyngor.
- Galluogi Cyngor Bro Morgannwg i gefnogi'r ysgol gyda phrosiectau cyfalaf yn y dyfodol a rheoli prosiectau adeiladu yn fwy effeithiol.
- Cefnogi'r ysgol i fynd i'r afael â heriau diweddar sy'n ymwneud â chydymffurfio a rheolaeth ariannol.

Cynyddu gallu'r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

- Byddai hefyd yn rhoi cyfle cyfartal i'r gymuned ar gyfer lleoedd ysgol ar draws Cyngor Bro Morgannwg trwy ddilyn gweithdrefnau derbyn Cyngor Bro Morgannwg.
- Rhoi sicrwydd bod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd addas drwy gynnal arolygon cyflwr ac addasrwydd.
- Byddai'r ysgol yn dod o dan raglen gyfalaf ac adnewyddu asedau Cyngor Bro Morgannwg i sicrhau bod adeilad ysgol yn cael ei gynnal a'i gadw a bod yr holl ofynion digidol yn unol â'r safonau ac ati.

4.2. ANFANTEISION POSIBL Y CYNNIG HWN O'I GYM HARU Â'R STATUS QUO

- Ni fyddai'r ysgol bellach yn rheoli ei phroses dderbyn ei hun a byddai'n ofynnol sicrhau bod pob rhiant disgyblion y dyfodol yn ymwybodol o'r newid hwn. Mae rhieni wedi dewis ysgolion cynradd bwydo ar gyfer addysg eu plant ac ar gyfer blaenoriaeth wrth drosglwyddo i addysg uwchradd yn Ysgol Stanwell. Byddai unrhyw bryder posibl yn cael ei reoli drwy sicrhau bod trefniadau pontio ar waith tan 2030.

- Mae heriau posibl gyda throsglwyddo asedau cyfalaf oherwydd y statws.
- Gallai ansefydlogi posibl hefyd gael ei achosi drwy drosglwyddo staff i strwythur cyflog statws sengl.

4.3. RISGIAU POSIBL Y CYNNIG HWN A MESURAU I LINIARU'R RISGIAU A NODWYD

- Ar hyn o bryd mae pryderon ariannol a diwydrwydd dyladwy ar gyfer Ysgol Stanwell. Gellir lliniaru risgiau drwy gymorth ychwanegol gan Gyngor Bro Morgannwg.
- Fel ysgol sefydledig, ar hyn o bryd mae gan Stanwell fynediad cyfyngedig i ffynonellau cyllid a chymorth ychwanegol. Byddai newid statws Stanwell i ysgol a gynhelir gan y gymuned yn lliniaru'r risgiau hyn. Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn darparu cymorth ychwanegol ar reoli cyllidebau, monitro a chydymffurfio.
- Bydd trefniadau derbyn wrth drosglwyddo yn cael eu rhoi ar waith i liniaru effeithiau'r newid yn y categori gan ganiatáu i blant gadw eu statws bwydo hyd at broses drosglwyddo blwyddyn 6 i addysg uwchradd ar gyfer Medi 2030.

4.4. ASESAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ymgynghori. Proses sy'n astudio polisi neu gynllun yw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu'n anffafriol yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Gydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen.

4.5. ASESAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal i bennu unrhyw effeithiau y byddai'r cynnig hwn yn ei gael ar y gymuned leol. Cafodd y cynnig ei asesu ar draws nifer o fesurau.

Mae'r asesiad o'r effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ar draws 5 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 3 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r gymuned i barhau i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol ac i wneud hynny fwyfwy, drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Byddai'r cynnig yn rhoi dull cyson o 11-18 oed fyddai'n hybu ac yn tanlinellu parhad a chynnydd i'r disgyblion, gan sicrhau cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Cynigir y bydd o leiaf pob cyfleuster presennol ar gyfer disgyblion, rhieni a'r gymuned yn parhau.

Gellir gweld yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn llawn drwy'r ddolen ganlynol:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/Consultations/Changing-Stanwell-School-from-Foundation-School-to-Community-Maintained-School.aspx>

4.6. CYFRANIADAU I LESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn gofyn i'r corff llywodraethu feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un diben, mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod Llesiant ar waith a phum "ffordd o weithio" sy'n gorfod llywio prosesau gwneud penderfyniadau cyrff cyhoeddus.

Arfarnwyd y cynnig o ran sut mae'n cyfrannu at gyflawni dyheadau'r Ddeddf, y nodau Llesiant, a'r ffyrdd o weithio. Nid yw hyn yn ffurfio rhan o'r broses ymgynghori statudol ond fe'i hystyriwyd yn fuddiol i gyflawni ysbryd y Ddeddf.

4.7. DEWISIADAU AMGEN ERAILL A YSTYRIWYD

OPSIWN 1: PARHAU I FOD YN YSGOL SEFYDLEDIG

Pam gwrthodwyd yr opsiwn hwn?

Nid yw ysgolion sefydledig bellach yn opsiwn yng Nghymru o ystyried yr heriau cynhenid yn y model, yn enwedig gan ei fod yn ymwneud â chyllid ac atebolrwydd. Erbyn hyn, mae mwy o ddisgwyliad a mwy o ddibyniaeth gan Lywodraeth Cymru mewn ysgolion sy'n gweithio fel rhan o'r Awdurdodau Lleol sy'n eu hariannu. O dan ddeddfwriaeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mae'r Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am yr ysgol ond gan ei bod yn ysgol sefydledig, mae gan yr Awdurdod Lleol fewnbwn/mynediad cyfyngedig i'w chefnogi.

Cafodd yr opsiwn hwn ei ystyried a'i ddiystyru fel rhan o drafodaethau rhwng Cyngor Bro Morgannwg a'r corff llywodraethu yn Ysgol Stanwell yn dilyn pryderon yn ymwneud â bregusrwydd yr ysgol o safbwynt rheolaeth ariannol a chydymffurfiaeth, a amlygwyd yn ddiweddar drwy archwiliadau ariannol diweddar. Nodwyd bod gan yr ysgol sgôr 'Dim Sicrwydd' yn ymwneud â'i rheolaeth ariannol a'i phrosesau. Y ffordd orau o fynd i'r afael â'r cymorth i wella'r rhain yw fel ysgol fro gyda mwy o gymorth gan yr Awdurdod Lleol. Ni fyddai gweithrediadau'r ysgol a rôl y corff llywodraethu yn newid, ac eithrio peidio â bod yn gyfrifol am adeiladau ysgol, nac fel y cyflogwr mwyach.

Pe bai'r ysgol yn parhau i fod yn ysgol sefydledig, byddai gan y Cyngor lai o hyblygrwydd i gefnogi'r ysgol ym mhob agwedd, gan gynnwys;

- Rheoli Prosiectau a monitro yn effeithiol
- Rheoli cyllideb ac adrodd
- Trefniadau llywodraethu ysgolion a derbyniadau
- Darpariaeth addysg ar gyfer y gymuned leol

- Cydymffurfio ac atebolrwydd

5. Y BROSES YMGYNGHORI STATUDOL

Tabl 4: Amlinelliaid o'r broses ymgynghori statudol

Camau	Disgrifiad
Cam 1: Datblygu cynnig	Bydd cynnig cychwynnol yn cael ei ddatblygu a'i ystyried gan y corff llywodraethu. Mae Adran 2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn amlinellu pryd mae angen y weithdrefn statudol.
Cam 2: Ymgynghoriad	Rhaid cyhoeddi dogfen ymgynghori ar wefan yr ysgol a'r Cyngor. Rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol a rhaid rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i ymgynghoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Mae'n rhaid i randdeiliaid a nodwyd yn adran 3.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) gael eu hysbysu drwy lythyr/e-bost.
Cam 3: Adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad	Bydd adborth a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei ystyried a bydd adroddiad ymateb yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r corff llywodraethu i'w ystyried.
Cam 4: Ystyriaeth y Corff Llywodraethu	Bydd y corff llywodraethu yn ystyried adroddiad yr ymateb i'r ymgynghoriad a phenderfynu a ddylid cyhoeddi'r adroddiad a chymeradwyo cyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol.
Cam 5: Hysbysiad statudol	Mae'n rhaid cyhoeddi'r hysbysiad statudol ar ddiwrnod ysgol ac fel yr amlinellir yn adran 4.1 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).
Cam 6: Cyfnod gwrthwynebu	Mae unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig yn cael cyfle i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon i'r cynigiwr cyn pen cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau o'r dyddiad pan gyhoeddwyd yr hysbysiad.

Camau	Disgrifiad
Cam 7: Adroddiad gwrthwynebu	O dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 pan fydd gwrthwynebiadau wedi eu derbyn, mae'n rhaidd i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigiwr i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu").
Cam 8: ystyriaeth	Os oes unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, rhaid cyfeirio'r cynnig llawn at yr awdurdod lleol i'w benderfynu (mae hyn os yw'r ysgol yn ymgymryd â'r cynnig) mae'r Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu ar gyfer penderfyniad terfynol ar y cynnig.
Cam 9: Llythyr penderfyniad	Bydd cadarnhad o'r penderfyniad ac adroddiad gwrthwynebu yn cael ei roi i randdeiliaid.

5.1. DYDDIADAU ALLWEDDOL

Bydd adborth o'r ymgynghoriad addysg hwn yn cael ei gasglu a'i grynhoi gan Gyngor Bro Morgannwg gyda mewnwelediad gan gorff llywodraethu Stanwell. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i bawb ei weld ar wefan yr ysgol. Hefyd gellir gwneud cais am gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Mae rhagor o gamau y bydd yn rhaid eu cyflawni cyn gwneud penderfyniad terfynol. Rhestrir y camau hyn isod:

Tabl 5: Dyddiadau allweddol y broses

Proses Statudol	Amserlen
Cyhoeddi dogfen ymgynghori	11 Medi 2023
Dyddiad cau i gyflwyno barn ar y cynigion	23 Hydref 2023
Yr adroddiad ymgynghori i gael ei ystyried a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol a'r Cyngor	Tachwedd 2023

Proses Statudol	Amserlen
Yn amodol ar gymeradwyaeth, cyhoeddir hysbysiad Statudol a gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol	20 Tachwedd 2023
Diwedd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol	18 Rhagfyr 2023
Cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiad pan dderbynnir gwrthwynebiadau.	Ionawr 2024
Hysbysiad o'r penderfyniad	<p>Chwefror 2024 Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, bydd y corff llywodraethu yn penderfynu ar y cynnig.</p> <p>Mawrth 2024 - Os derbynnir gwrthwynebiadau mae'r mater yn cael ei gyfeirio at Gabinet y Cyngor i'w benderfynu</p>
Cyflwyno newid o	Medi 2024

Mae'n bosibl y bydd yr amserlen arfaethedig yn newid.

6. CWESTIYNAU CYFFREDIN

Pam mae Ysgol Stanwell yn newid o fod yn Ysgol Sefydledig i ysgol gymunedol?

Mae Ysgol Stanwell yn bwriadu newid o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir gan y gymuned i sicrhau bod yr ysgol yn elwa ar fanteision bod yn rhan o sefydliad ehangach, gan gynnwys cael cymorth pellach gan Gyngor Bro Morgannwg mewn sawl maes, megis rheoli cyllidebau, trefniadau llywodraethu, cymorth derbyn a rheoli prosiectau. Mae Stanwell yn ysgol ragorol ac yn darparu addysg dda i'r plant a'r bobl ifanc y mae'n eu gwasanaethu. Oherwydd y newid, byddai'r ysgol yn parhau i wella a darparu'r canlyniadau addysg gorau.

Beth oedd canlyniad yr adroddiad archwilio ysgol diweddar?

Amlygodd yr adroddiad archwilio bryderon yn ymwneud â bregusrwydd yr ysgol o safbwynt rheolaeth ariannol a chydymffurfiaeth. Nodwyd bod gan yr ysgol sgôr 'Dim Sicrwydd' yn ymwneud â'i rheolaeth ariannol a'i phrosesau. Y ffordd orau o fynd i'r afael â'r cymorth i wella'r rhain yw fel ysgol fro gyda mwy o gymorth gan yr Awdurdod Lleol. Ni fyddai gweithrediadau'r ysgol a rôl y corff llywodraethu yn newid, ac eithrio peidio â bod yn gyfrifol am adeiladau ysgol, nac fel y cyflogwr mwyach. Gellir dod o hyd i'r adroddiad a'r cyfarfod Cabinet yn y ddolen ganlynol [Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol \(valeofglamorgan.gov.uk\)](http://valeofglamorgan.gov.uk).

Beth yw manteision newid statws?

Bydd hyn yn caniatáu cymorth pellach gan Gyngor Bro Morgannwg mewn sawl maes, gan gynnwys rheoli cyllidebau, trefniadau llywodraethu, cymorth derbyn a rheoli prosiectau.

Byddai'n galluogi Cyngor Bro Morgannwg i'w cefnogi gyda phrosiectau cyfalaf yn y dyfodol a rheoli prosiectau'n effeithiol.

Byddai hefyd yn cynyddu gallu'r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Byddai hefyd yn rhoi cyfle cyfartal i'r gymuned ar gyfer lleoedd ysgol trwy ddilyn gweithdrefnau derbyn Cyngor Bro Morgannwg.

Beth yw'r amserlen newid arfaethedig?

Mae gweithdrefnau statudol i'w dilyn o ran newid y statws. Mae yna lawer o brosesau y mae'n rhaid eu cymeradwyo cyn i'r newid gael ei weithredu. Rydym yn amcangyfrif y bydd newid statws yn dod i rym o Medi 2025.

A fydd newidiadau i staff a'r pennaeth?

Bydd newid statws i ysgol gymunedol yn golygu, er bod llywodraethwyr yn cadw cyfrifoldeb cyflogaeth am staffio yn yr ysgol, mai'r Awdurdod Lleol fydd y cyflogwr. Yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig i newid y statws, bydd y corff llywodraethu a'r Awdurdod Lleol yn sicrhau cydymffurfiaid llawn â rheoliadau TUPE sydd ar waith i ddiogelu hawliau cyflogaeth gweithwyr. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori ystyrlon ac amserol gyda chynrychiolwyr a

staff yr undebau ar yr adeg briodol. Byddai'r Awdurdod Lleol hefyd yn argymhell mabwysiadu polisiau a gweithdrefnau AD y Fro y cytunwyd arnynt i'r corff llywodraethu. Bydd swyddogion yr Awdurdod Lleol mewn cysylltiad â darparwyr adnoddau dynol yr ysgol, yn gweithio'n agos gyda'r ysgol a'r llywodraethwyr i gefnogi staff er mwyn sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chlir yn digwydd bob amser.

A fydd y newid statws yn effeithio ar y plant presennol yn yr ysgol?

Oherwydd bod yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar newid statws cyfreithiol, bydd yr ysgol yn parhau i weithredu fel arfer, ac eithrio o ran penderfyniadau derbyn ac ni fydd unrhyw effaith ar blant yr ysgol.

Bydd unrhyw Gwestiynau Cyffredin pellach a ofynnir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hychwanegu at dudalen we yr ymgynghoriad.

Ar hyn o bryd mae fy mhlentyn yn mynychu ysgol gynradd fwydo ar gyfer Stanwell. A fydd eu cais am Stanwell dan anfantais oherwydd y newid arfaethedig hwn?

Cynigir y byddai trefniadau pontio ar waith i sicrhau bod unrhyw blentyn sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo gyfredol ar gyfer Stanwell ar ddyddiad y newid yn cael yr un flaenoriaeth ag y byddent yn ei wneud o dan y polisi presennol sydd ar waith, ar yr amod eu bod yn gwneud cais am le ar yr adeg briodol.

Byddai'r Cyngor yn cadw'r cyswllt ysgol gynradd fwydo ar gyfer y plant hynny sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024. Byddai pob plentyn yn y grŵp oedran derbyn i flwyddyn 6 ysgol fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024 yn cadw ei statws bwydo wrth drosglwyddo i addysg uwchradd yn y dyfodol.

Byddai'r trefniadau trosiannol yn dod i ben ar gyfer proses drosglwyddo blwyddyn 6 i addysg Uwchradd ym mis Medi 2030 pan fydd y plentyn olaf o dan drefniadau pontio yn gadael ei ysgol gynradd fwydo.

7. CYNNWYS RHANDDEILIAID AC YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Byddai'r proses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Gofynnir i amrywiaeth o unigolion a grwpiau am eu barn am y cynigion hyn.

Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, mae angen i'r corff llywodraethu sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau â diddordeb fynegi eu barn a'u safbwyntiau ar y cynigion hysbys i alluogi'r corff llywodraethu i ystyried y safbwyntiau hyn fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r corff llywodraethu yn ymgynghori gyda'r grwpiau canlynol:

Tabl 6: Rhestr o'r grwpiau i ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses ymgynghori

Staff (addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Stanwell	Corff Llywodraethu Ysgol Stanwell
Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant yn Ysgol Stanwell	Cyngor Tref Penarth
Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu'r ysgolion bwydo sy'n gysylltiedig â Stanwell	Cyngor Bro Morgannwg
Bwrdd Rheoli Teuluoedd yn Gyntaf / Dechrau'n Deg	Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP) Bro Morgannwg
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	Sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol
Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol	Cynghorwyr lleol
Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)	Comisiynydd y Gymraeg
Estyn	Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos ym Mro Morgannwg
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol	Undebau Llafur
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	Cyfarwyddwyr Addysg - yr Holl Awdurdodau Cyfagos

7.1 CYNWYS PLANT YN YR YMGYNGHORIAD

Wrth gyflwyno cynigion, mae'n bwysig bod ein bod yn gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a, lle y bo'n bosibl, y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu'r ysgol. Mae'r ysgol yn credu'n gryf y dylai disgyblion gael y cyfle i fynegi eu barn ynghylch y cynnig hwn.

Y bwriad yw cynnal gweithdy ymgynghori gyda disgyblion yn Stanwell i gasglu eu barn am y cynnig, bydd hyn hefyd yn cynnwys ymgynghori â disgyblion yn yr ysgolion cynradd bwydo. Caiff y wybodaeth a gesglir yn y sesiynau hyn ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

7.2 CYNWYS RHIENI, LLYWODRAETHWYR A STAFF - SUT Y GALLWCH DDARGANFOD MWY A RHOI EICH BARN

Mae'r Ysgol yn bwriadu cynnal sesiynau galw heibio ar gyfer yr holl randdeiliaid fel rhan o'r broses.

Gwahoddir rhieni/gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion yn yr ysgol a'r gymuned i fynychu'r sesiwn galw heibio lle gallwch ofyn unrhyw gwestiynau am y cynnig.

Byddwn bob amser yn gofyn i chi lenwi ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad am ein bod ond yn gallu derbyn safbwyntiau yn ysgrifenedig.

Bydd y dyddiad a'r lleoliad ar gyfer y sesiwn galw heibio yn cael eu harddangos gan yr ysgol drwy wefan yr ysgol.

Rydym hefyd wedi trefnu cyfarfodydd ar gyfer staff yn yr ysgol.

Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon a gwybodaeth ategol bellach ar y wefan Ysgolion:

[Welcome to Ysgol Stanwell School](#)

Gellir dod o hyd i unrhyw ddiweddariadau hefyd ar dudalennau gwe Ysgolion a Bro Morgannwg, mae dolen wedi'i darparu isod (o dan rhowch eich barn).

Ceir manylion dyddiadau cyfarfodydd yr ymgynghoriad isod:

Tabl 7: Digwyddiadau Ymgysylltu yr Ymgynghoriad:

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Cyfarfod staff	Dydd Mawrth 12 Fedi 3:15 – 4:15	Ysgol Stanwell, Heol Archer CF64 2XL
Sesiwn galw heibio Rhieni a'r Gymuned	Dydd Mercher 27 Fedi 15:00 – 18:00	Ysgol Stanwell, Heol Archer CF64 2XL
Sesiwn ymgysylltu disgyblion Ysgol Stanwell	Dydd Mercher 4 Hydref 09:00- 10:00	Ysgol Stanwell, Heol Archer CF64 2XL
Sesiwn ymgysylltu disgyblion ysgolion bwydo	Dydd Mercher 4 Hydref 10:30am – 11:30	Ysgol Stanwell, Heol Archer, CF64 2XL
Sesiwn galw heibio gymunedol	Dydd Mercher 11 Hydref 15:30 – 17:30	Ysgol Stanwell, Heol Archer CF64 2XL

7.3 SUT GALLWCH GANFOD MWY A RHANNU EICH BARN

CANFOD MWY

Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon a gwybodaeth ategol bellach ar y dudalen <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/Consultations/Changing-Stanwell-School-from-Foundation-School-to-Community-Maintained-School.aspx>

Gellir dod o hyd i unrhyw ddiweddariadau hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ffrwd Twitter yr Ysgol a Chyngor Bro Morgannwg a thrwy dudalen Facebook yr Ysgol a Chyngor Bro Morgannwg.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar **01446 709828** neu sustainablecommunitiesforlearning@valeofglamorgan.gov.uk am fwy o wybodaeth am y cynnig.

RHOWCH EICH BARN I NI

Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o **11 Medi 2023 hyd at 23 Hydref 2023**. Gallwch ymateb i'n cynigion ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn. Mae eich barn yn bwysig i ni, ac mae nifer o ffyrdd y gallwch roi gwybod i ni.

Gallwch:

- Gwblhau ffurflen ymateb ar-lein yn:
<https://forms.office.com/e/6WQn5j2YUu>

Neu

- Gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon i:

Newid statws Ysgol Stanwell,

Ysgol Stanwell

Heol Archer

Penarth

CF64 2XL

Noder, dylai'r holl sylwadau a gyflwynir yn ysgrifenedig gynnwys enw llawn a chod post y person sy'n gwneud y sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 23 Hydref 2023. Yn anffodus, ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Bydd yr holl ymatebion a roddir i ni yn cael eu hystyried cyn i ni benderfynu a ddylid cyhoeddi hysbysiad statudol am y cynigion ai peidio.

Ni fydd ymatebion a dderbynnir gan ymgynghoreion sy'n gwrthwynebu'r cynigion hyn, er eu bod yn cael eu hystyried fel rhan o'r adroddiad ymgynghori, yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Byddai gwrthwynebiad statudol yn rhan o'r cyfnod rhybudd statudol pe bai'n cael ei gymeradwyo ar y cam nesaf gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol. Os

ydych yn dymuno gwrthwynebu'r hysbysiad ar gam nesaf y broses, os bydd yn mynd yn ei flaen, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Mae'r dyddiadau allweddol hyn wedi'u hamlinellu o dan [Adran 5](#).

8. FFURFLEN YMATEB I YMGYNGHORIAD

Mae eich barn chi'n bwysig. Rhannwch eich barn gyda ni trwy wneud un o'r canlynol:

- **cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein** yn:

<https://forms.office.com/e/6WQn5j2YUu>

neu

- ateb cwestiynau'r ymgynghoriad ac **ychwanegu eich sylwadau ar y ffurflen hon**

Dychwelwch y ffurflen i'r cyfeiriad post canlynol:

Newid statws Ysgol Stanwell,

Ysgol Stanwell

Heol Archer

Penarth

CF64 2XL

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 23 Hydref 2023. Yn anffodus, ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Ni chaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynigion, er bydd Corff Llywodraethu'r Ysgol yn eu hystyried wrth wneud ei benderfyniad. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cyflwyno gwrthwynebiadau.

Nodwch y dylai'r holl sylwadau gynnwys enw llawn a chod post y person sy'n gwneud y sylwadau.

Gellir gwneud cais am unrhyw ymatebion a dderbynnir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd rhaid gwneud y rhain yn gyhoeddus. Fodd bynnag, byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n datgelu unigolyn, megis enw, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post yn cael ei dileu.

Eich Enw Llawn	
Cod Post:	

Dwedwch wrthym a ydych chi'n ymateb fel (ticiwch bob un sy'n berthnasol):					
Rhiant Warcheidwad*	neu		Nain/Taid*		Disgybl*
Aelod o staff**			Llywodraethwr*		Preswylydd Lleol
Arall (rhowch fanylion)					

*A fydddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) rydych yn gysylltiedig â hi/nhw?	
---	--

1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i newid ysgol Stanwell o statws sefydledig i statws cymunedol o fis Medi 2024?					
Ye		Na		Dim barn y naill ffordd na'r llall	
Esboniwch pam:					

2. Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill i'r cynigion, nodwch y rhain isod.


3. Unrhyw sylwadau eraill?

Diolch i chi am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon heb fod yn hwyrach na **23 Hydref 2023**.

Os hoffech gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr ymgynghoriad ar e-bost neu drwy'r post, nodwch y manylion perthnasol isod.

Hoffwn gael fy hysbysu drwy: (Dilëwch fel y bo'n briodol)	E-bost / Post
Cyfeiriad e-bost:	
Cyfeiriad post:	



9. FFURFLEN MONITRO CYDRADDOLDEB

Rhywedd a Hunaniaeth Rhywedd				
Beth yw eich rhywedd?		<input type="checkbox"/> Benyw <input type="checkbox"/> Gwryw		
Ar eich genedigaeth, sut cawsoch eich disgrifio?		<input type="checkbox"/> Benyw <input type="checkbox"/> Gwryw <input type="checkbox"/> Rhyngrywiol <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud		
Anabledd				
A oes cyfyngiadau ar eich gweithgareddau bob dydd oherwydd cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, salwch neu anabledd sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, 12 mis neu fwy?		<input type="checkbox"/> Oes - cyfyngiadau mawr <input type="checkbox"/> Oes - rhywfaint o gyfyngiadau <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud		
Oedran				
Beth yw eich dyddiad geni?				
Hunaniaeth Genedlaethol				
Hunaniaeth Genedlaethol – sut byddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?				
<input type="checkbox"/> Cymru	<input type="checkbox"/> Seisnig	<input type="checkbox"/> o'r Alban	<input type="checkbox"/> Gogledd Iwerddon	<input type="checkbox"/> Prydeinig
<input type="checkbox"/> Arall (nodwch)		<input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud		
Grŵp Ethnig				
Ethnigrwydd – sut fyddech chi'n disgrifio eich grŵp ethnig?				

Gwyn			
<input type="checkbox"/> Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig		<input type="checkbox"/> Gwyddelig	
<input type="checkbox"/> Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig		<input type="checkbox"/> Unrhyw gefndir gwyn arall (nodwch):	
Grwpiau cymysg/aml-ethnig			
<input type="checkbox"/> Gwyn a Du Caribïaidd		<input type="checkbox"/> Gwyn a Du Affricanaidd	<input type="checkbox"/> Gwyn ac Asiaidd
<input type="checkbox"/> Unrhyw gefndir cymysg/aml-ethnig arall (nodwch):			
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig			
<input type="checkbox"/> Indiaidd	<input type="checkbox"/> Pacistanaidd	<input type="checkbox"/> Bangladeshaidd	<input type="checkbox"/> Tsieineaidd
<input type="checkbox"/> Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch):			
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig			
<input type="checkbox"/> Affricanaidd		<input type="checkbox"/> Caribïaidd	
<input type="checkbox"/> Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribiaidd arall (nodwch):			
Grŵp ethnig arall			
<input type="checkbox"/> Arabaidd			
<input type="checkbox"/> Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch):			
<input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud			

Y Gymraeg				
Disgrifiwch eich sgiliau Cymraeg trwy roi tic yn y blwch/blychau perthnasol isod:				
	Deall	Siarad	Darllen	Ysgrifennu
Dim	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Sylfaenol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Cymwys	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Da	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhugl	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Hunaniaeth Rywiol

Pa un neu rai o'r opsiynau hyn sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi'ch hun?

- | | | |
|--|---|------------------------------------|
| <input type="checkbox"/> Heterorywiol / syth | <input type="checkbox"/> Hoyw neu lesbiaidd | <input type="checkbox"/> Deurywiol |
| <input type="checkbox"/> Arall | <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud | |

Crefydd

Beth yw eich crefydd?

- | | | |
|---|---|---|
| <input type="checkbox"/> Dim crefydd | <input type="checkbox"/> Cristion (pob enwad) | <input type="checkbox"/> Bwdhydd |
| <input type="checkbox"/> Hindŵ | <input type="checkbox"/> Iddew | <input type="checkbox"/> Mwslim |
| <input type="checkbox"/> Unrhyw grefydd arall (nodwch): | | <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud |

Beichiogrwydd a Mamolaeth

- | | |
|--|---|
| Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog yn y flwyddyn ddiwethaf? | <input type="checkbox"/> Oes
<input type="checkbox"/> Nac ydw
<input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud |
|--|---|

- | | |
|---|---|
| Ydych chi wedi cymryd cyfnod mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf? | <input type="checkbox"/> Oes
<input type="checkbox"/> Nac ydw
<input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud |
|---|---|

Priodas a Phartneriaeth Sifil

- | | |
|---|---|
| Beth yw eich statws priodasol neu bartneriaeth sifil o'r un rhyw? | <input type="checkbox"/> Sengl - hynny yw, heb briodi erioed a heb gofrestru mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw erioed
<input type="checkbox"/> Priod ac yn byw gyda gŵr/gwraig |
|---|---|

	<ul style="list-style-type: none"><input type="checkbox"/> Wedi gwahanu ond dal yn briod yn gyfreithiol<input type="checkbox"/> Wedi ysgaru<input type="checkbox"/> Gweddw<input type="checkbox"/> Mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw ac yn byw gyda'ch partner<input type="checkbox"/> Wedi gwahanu ond yn dal mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw yn gyfreithiol<input type="checkbox"/> Mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw gynt sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol<input type="checkbox"/> Partner sy'n fyw o bartneriaeth sifil o'r un rhyw<input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud
--	---